Gwasanaeth y Tribiwnlys Prisio yng Nghymru

APELIADAU PRISIO TRETH Y CYNGOR

Arweiniad i'n

HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD



G/496/04-05
ISBN 0 7504 3753 7

Ebrill
CMK-22-08-011

Cysodwyd teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2005

BETH YW HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD?

Mae'r Hysbysiad o Benderfyniad yn eich cynghori am benderfyniad y Tribiwnlys, ynghyd â datgan rhesymau dros y penderfyniad.

APELIADAU BANDIO TRETH Y CYNGOR

Os yw'r Tribiwnlys wedi penderfynu y dylid newid y Rhestr Brisio, mae'r newid perthnasol yn cael ei ddangos yn yr Hysbysiad o Benderfyniad, o dan adran manylion yr eiddo, bandiau prisio a dyddiadau effeithiol. Pan fo newid yn cael ei ddangos yn yr adran hon, mae'r Tribiwnlys wedi gorchymyn i'r Rhestr Brisio gael ei newid i gydsynio â'r penderfyniad.

Os yw'r Tribiwnlys wedi gorchymyn newid i fand annedd, mae'n rhaid i'r Swyddog Rhestru gydymffurfio â'r gorchymyn o fewn chwe wythnos. Unwaith mae wedi gwneud hyn, mae ganddo chwe wythnos i hysbysu'r Cyngor (Awdurdod Bilio) am y newid. Yna bydd yr Awdurdod Bilio yn ail asesu'r swm Treth y Cyngor sy'n daladwy.

APELIADAU ATEBOLRWYDD TRETH Y CYNGOR

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cael ei gynghori am y penderfyniad a bydd yn gwneud unrhyw newid angenrheidiol o ganlyniad i'r penderfyniad.

APELIADAU HYSBYSIAD CWBLHAU

Mae'r Tribiwnlys wedi penderfynu y diwrnod cwblhau fel a fynegwyd yn yr Hysbysiad o Benderfyniad. Mae'r Swyddog Rhestru a'r Awdurdod Bilio wedi eu cynghori am y penderfyniadau hyn. Bydd y naill yn cymryd y camau angenrheidiol, os yw newid i'r diwrnod cwblhau wedi cael ei orchymyn.

HYSBYSIAD O APELIADAU ANNILYSRWYDD

Os ydych wedi apelio yn erbyn penderfyniad y Swyddog Rhestru fod eich cynigiad yn annilys, mae penderfyniad y Tribiwnlys ynglŷn â dilysrwydd y cynigiad yn cael ei ddangos yn yr Hysbysiad o Benderfyniad.

Os yw eich apêl wedi ei ganiatáu, bydd eich cynigiad yn cael ei ystyried gan y Swyddog Rhestru. Os nad yw'n cytuno â'r newidiadau rydych yn eu ceisio, bydd apêl yn codi, a all gael eu wrando gan y Tribiwnlys yn ddiweddarach.

YDI'R TRIBIWNLYS YN GALLU ADOLYGU'R PENDERFYNIAD?

Gall Tribiwnlys ystyried cais am adolygiad o'i benderfyniad ar y seiliau canlynol yn **unig**:

- os yw'r penderfyniad wedi cael ei wneud ar gam o ganlyniad i wall clerigol;
- os na fynychodd barti y gwrandawiad ac yn gallu dangos rheswm da dros beidio ag ymddangos; neu
- os yw'r penderfyniad yn cael ei effeithio gan benderfyniad yr Uchel Lys neu'r Tribiwnlys Tiroedd mewn perthynas â'r eiddo sy'n destun penderfyniad y Tribiwnlys.

- Mae yna sail ychwanegol yn achos **Apeliadau Hysbysiad Cwblhau yn unig**, sy'n caniatáu i dystiolaeth newydd gael ei hystyried, lle mae wedi dod i'r amlwg, ac na ellid fod wedi ei ragweld na'i sicrhau yn gynharach.

Os ydych yn dymuno ymgeisio am adolygiad ar unrhyw o'r seiliau uchod, dylech wneud cais ysgrifenedig i Glerc y Tribiwnlys gan nodi'r seiliau ar gyfer adolygiad. Gall cais am adolygiad gael ei wrthod os nad yw'n cael ei wneud o fewn ***pedair wythnos*** o'r dyddiad y cafodd y penderfyniad ei gyhoeddi i'r partïon.

A ALLAF APELIO YN ERBYN Y PENDERFYNIAD?

Mae yna hawl i apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad neu orchymyn gan y Tribiwnlys, ar bwynt o gyfraith yn unig.

Dylid cyflwyno apêl drwy hysbysiad ysgrifenedig o gynigiad a'i anfon i **Swyddfa Weinyddol y Llys, Y Llysoedd Barn Brenhinol, Y Strand, Llundain WC2A 2LL**, ynghyd â'r tâl priodol. Dylid cyflwyno pedwar copi o'r cynigiad, a chyflwyno copïau i'r ymatebwyr o fewn 28 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad neu'r gorchymyn. Gall unrhyw apêl a gyflwynir wedi hynny gael ei wrthod, oherwydd ei fod tu allan i'r terfynau amser.

Dylid gwneud ymholiadau cyffredinol ynglŷn ag apeliadau i Swyddfa Weinyddol y Llys ar 020 7947 6295.

Dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith y **gall** yr Uchel Lys ddyfarnu costau yn erbyn y parti aflwyddiannus.

Efallai felly y byddwch yn dymuno gofyn am gyngor proffesiynol cyn apelio i'r Uchel Lys.

YDI'N BOSIB CWYNO YNGLŶN Â'R GWASANAETH A DDARPARWYD?

Os oes gennych gŵyn ynglŷn â'r modd y cafodd eich achos ei drin gan weinyddiaeth y TP, yna:

- Yn gyntaf, dylech ysgrifennu at Glerc y Tribiwnlys, yn y cyfeiriad ddangosir yn ein hysbysiadau.
  Byddwch yn cael eich hysbysu o drefn cwyno llawn y Tribiwnlys yn ymateb y Clerc.
- Os nad ydych yn fodlon gyda'r ymateb, gallwch ysgrifennu at Lywydd y Tribiwnlys, gan gyfeirio'ch llythyr at Swyddfa'r Tribiwnlys.

Gallwch ddefnyddio'r broses yma o gwyno yn erbyn y modd cafodd eich apêl ei ymdrin yn weinyddol gan y Tribiwnlys, yn unig. Ni allwch apelio yn erbyn penderfyniad drwy'r modd hyn. Mae apêl pellach yn erbyn y penderfyniad i'r Llysoedd Uwch.

RHAGOR O WYBODAETH

Ein Cofnodion

Mae gan unrhyw un yr hawl i ymweld â swyddfeydd y Tribiwnlys Prisio i edrych ar gopïau o'r agendâu a phenderfyniadau wnaed gan y Tribiwnlys yn y chwe blynedd diwethaf. Agendâu yw rhestrau o apeliadau sydd wedi derbyn dyddiad gwrandawiad.

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth ynglŷn â'r Tribiwnlysoedd Prisio ynghyd â chopïau o'r holl arweinlyfrau ar y wefan ganlynol sef:

www.valuation-tribunals.gov.uk [GTP Lloegr]

Mae gwefan dwyieithog yn cael ei datblygu yng Nghymru ar hyn o bryd (mae pob TP yn gweithredu yn debyg yn ei hanfod, ond mae yna ychydig o wahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr o safbwynt deddfwriaeth).

www.valuation-tribunals-wales.gov.uk [GTP Cymru]

Amlinellir cydsynaid GTPC i Ryddid Gwybodaeth, Deddfwriaeth Gwybodaeth Amgylcheddol mewn datganiad polisi a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan GTPC: copïau ar gael drwy swddfeydd TP.

Dylech nodi nad yw'r daflen hon yn cynnwys pob agwedd o apeliadau Treth y Cyngor. Nid yw'r wybodaeth mae'n ei chynnwys yn rhwymo unrhyw Dribiwnlys Prisio, nac yn effeithio ar ddefnydd y rheolau neu ddeddfau perthnasol. Bydd Clerc y Tribiwnlys yn ymateb i unrhyw gais rhesymol am gyngor ynglŷn â'r drefn cyn dechrau'r gwrandawiad.